# Y FARCHNAD CODI ARIAN DRWY GYMYNRODDION YNG NGHYMRU 2019

***Yn dilyn degawd o dwf, mae’r sylfeini wedi’u gosod ac mae’r dyfodol yn ddisglair ar gyfer codi arian drwy gymynroddion***

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno gwaith ymchwil newydd i’r farchnad cymynroddion yng Nghymru. Rhoddir sylw i incwm o roddion mewn ewyllys, gan edrych ar y 70 o’r prif elusennau sydd â’u pencadlys yng Nghymru sy’n cael arian drwy gymynroddion. Mae’r adroddiad yn ymdrin â’r canlynol:

- Y farchnad codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru – marchnad sy'n tyfu
- Cymharu elusennau ar lefel genedlaethol gydag elusennau sy’n codi arian yn Lloegr, yr Alban ac ar draws y DU
- Degawd o newid: 2007-2017
- Incwm o gymynroddion yn ôl achos
- Argraffiadau o godi arian drwy gymynroddion yng Nghymru

Cyhoeddwyd: Mehefin 2019

# CYFLWYNIAD

Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei gomisiynu gan Remember A Charity er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o'r patrymau incwm, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chymynroddion yn y farchnad codi arian yng Nghymru heddiw. Gan edrych yn ôl ar ddegawd a mwy o roi drwy gymynrodd, mae'r adroddiad hwn, yn unigryw iawn, yn rhoi'r chwyddwydr ar dueddiadau'r prif elusennau codi arian sydd â'u pencadlys yng Nghymru sy'n cael arian drwy gymynroddion.

### Y farchnad yng Nghymru

Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn amrywiol iawn, ond o'i gymharu â marchnad y DU, mae elusennau'n tueddu i fod yn llai, gyda mwy o ffocws ar y gymuned. Dros y blynyddoedd, mae'r galw am wasanaethau elusennau wedi parhau i dyfu, ac mae'r pwysau cynyddol sy'n deillio o bolisïau'r llywodraeth a chyni ariannol yn golygu bod cynhyrchu incwm yn fwy o her byth. Yn sgil hyn, mae'r sector yng Nghymru wedi dechrau rhoi'r gorau i ddibynnu ar arian gan y sector cyhoeddus a throi ei olygon at roddion gwirfoddol. Oherwydd hyn, mae pwyslais cynyddol ar godi arian drwy gymynroddion wrth i elusennau geisio dod o hyd i atebion ariannol a fydd yn sicrhau incwm i'r dyfodol.

Cyfran fechan o'r farchnad cymynroddion yn y DU drwyddi draw yw'r farchnad yng Nghymru – ond mae'n tyfu'n gyflym. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod mwy o elusennau llai yn dod i gystadlu am arian, gan sylweddoli nad elusennau mawr cyfarwydd yn unig sy'n gallu codi arian fel hyn o bell ffordd. Mae'n wir y gall cymorth lleol cadarn fod yn rymus tu hwnt i gyrff cymunedol sy'n ystyried cael incwm drwy gymynroddion. Ac eto, ymddengys mai proffil isel sydd gan godi arian drwy gymynroddion yng Nghymru, ac nid yw'n cael ei ystyried yn gryfder bob amser.

### Cyfnodau o newid

Heb os nac oni bai, yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf, byddwn yn gweld newid ym maes cymynroddion, wrth i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ysgrifennu ewyllysiau a threth etifeddiant gael eu hadolygu, ac wrth i gostau profiant gynyddu. Gall y cefndir economaidd cyffredinol, prisiau eiddo, cyfraddau marwolaethau a phatrymau defnydd sy'n newid – gan gynnwys buddsoddiadau pensiwn sy'n newid a chynnydd yn y costau gofal mewn cymdeithas sy'n heneiddio – gael cryn dipyn o ddylanwad ar yr hyn y gallai elusennau ei gael fel rhoddion mewn ewyllys. Ac erbyn hyn, wrth i ni wynebu Brexit heb wybod beth fydd yr effeithiau hirdymor, mae'r cyd-destun economaidd yn fwy ansicr byth.

Yn y cyd-destun hwn sy'n newid, pa mor bwysig yw cymynroddion i elusennau sy'n codi arian yng Nghymru, a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y blynyddoedd nesaf? Beth allwn ni ei ddysgu o hanes incwm o gymynroddion yn ystod dirwasgiad 2008 ac ar ôl hynny? A beth sy'n newid o ran yr achosion y mae'r cyhoedd yn dewis eu cefnogi drwy roi rhodd mewn ewyllys?

---

*"Mae'r gwaith ymchwil hwn yn dangos bod y farchnad cymynroddion yng Nghymru yn tyfu'n gyflym a bod elusennau llai yn cyflawni y tu hwnt i'w gallu. Mae mwy o elusennau'n ymddangos, ac mae potensial anferthol am ragor o dwf. Fel gydag unrhyw faes codi arian, mae angen i gymynroddion gael buddsoddiad; amser, egni ac adnoddau. Yr elusennau sy'n manteisio ar y cyfle hwn ar lefel strategol yw'r rheini sy'n debygol o gael budd dros y blynyddoedd lawer nesaf. Gall rhaglen cymynroddion lwyddiannus weddnewid sefyllfa elusen yn llwyr."*

Rob Cope, cyfarwyddwr Remember A Charity

---

# Y PRIF GANFYDDIADAU


Mae’r gwaith ymchwil newydd hwn yn dangos bod y prif elusennau sy'n codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru yn fwyfwy dibynnol ar incwm o roddion mewn ewyllysiau. Mae’r farchnad cymynroddion yn tyfu'n gyflym, o ran nifer yr elusennau a lefel yr incwm. Er mai elusennau mawr a rhai sy’n ymwneud ag iechyd yw’r rhai sy’n denu’r gefnogaeth fwyaf, mae gan elusennau llai gyfran fwy yn y farchnad nag sydd ganddynt yng ngwledydd eraill y DU. Mae’n farchnad ddynamig ac yn farchnad sy'n newid.

**Mae’r farchnad cymynroddion yng Nghymru yn dipyn o faint** – yn 2017, rhoddwyd £19.8 miliwn drwy gymynroddion i’r 70 o elusennau sydd ar frig y rhestr o blith y rhai sy'n cael arian drwy gymynroddion yng Nghymru. Mae hyn yn cyfrif am chwarter eu hincwm gwirfoddol blynyddol i gyd, ac yn £283,000 ar gyfartaledd i bob sefydliad.

**Elusennau Cymru sy’n gweld y twf cyflymaf mewn incwm** – Er mai dim ond 1% o gyfanswm incwm o gymynroddion elusennau sy’n codi arian yn y DU y mae Cymru’n cael budd ohono, dyma'r farchnad cymynroddion sy'n tyfu gyflymaf. O ran incwm o gymynroddion, roedd ein sampl gyfatebol wedi gweld cynnydd o 35% mewn termau real dros y degawd diwethaf, o’i gymharu â 23% yn yr Alban. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd elusennau yn Lloegr wedi gweld cynnydd o 4% mewn incwm o gymynroddion, ac elusennau gyda chylch gwaith drwy’r DU gyfan wedi gweld cynnydd o 13%. Bydd gwerthoedd cymynroddion bob amser yn agored i newidiadau yn y cyd-destun economaidd, ond y farchnad yng Nghymru oedd yr un gadarnaf o blith gwledydd y DU yn ystod y dirwasgiad economaidd byd-eang ac ar ôl hynny.

**Elusennau iechyd sydd ar y brig yn y farchnad** – Yn 2017, cafodd dros dri chwarter yr incwm o gymynroddion ei roi i sefydliadau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd (elusennau canser a hosbisau yn bennaf). Mae’r rhain wedi gweld cynnydd o 57% mewn incwm yn ystod y degawd diwethaf. Ar yr un pryd, mae cymynroddion i elusennau crefyddol wedi disgyn dros draean yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

**Mae gan elusennau llai gyfran fwy o’r farchnad cymynroddion yng Nghymru** – Ar lefel y DU, yr elusennau mwyaf (y rhai gydag incwm blynyddol dros £10m) sydd flaenaf yn y farchnad cymynroddion. Ond yng Nghymru, dim ond 14% o incwm o gymynroddion y mae’r prif elusennau’n ei




hawlio. Mae elusennau mawr (gydag incwm o rhwng £1m a £10m) yn cynhyrchu 75% o gymynroddion. Mae elusennau llai (gydag incwm blynyddol sy'n llai nag £1 miliwn) yn ffynnu gan ystyried eu maint, gan ddenu incwm uwch ar gyfartaledd o gymynroddion a chael cyfran fwy o'r farchnad nag elusennau cyfatebol yn y DU (11% yng Nghymru o'i gymharu ag <1% yng ngwledydd eraill y DU).

# Y FARCHNAD CYMYNRODDION YNG NGHYMRU 2017

Mae marchnad cymynroddion elusennau sy'n codi arian yng Nghymru yn unigryw yng nghyd-destun y DU. Er bod y farchnad yn bendrwm, o ran cyfran yr elusennau mawr (y rheini gydag incwm blynyddol o rhwng £1m a £10m) a'r incwm a godir, nid yw'r 'prif' elusennau mwyaf (incwm >£10m) yn rhan mor fawr o'r farchnad cymynroddion ag yr ydynt yng ngwledydd eraill y DU.

Wrth edrych ar y 70 uchaf o blith elusennau sy'n codi arian drwy gymynroddion, dim ond 8% o'r farchnad sy'n cynnwys y prif elusennau, o'i gymharu â 43% ar draws marchnad y DU gyfan. I'r pegwn arall, mae bron i draean (31%) o'r farchnad yng Nghymru wedi'i ffurfio o sefydliadau sydd ag incwm blynyddol sy'n llai nag £1 miliwn, ond dim ond 3% o'r farchnad mae'r grŵp cyfatebol yn y DU yn ei ffurfio.




Mae cyfweliadau â'r gymuned codi arian yng Nghymru yn dangos mai un o'r heriau craidd y maen nhw'n ei hwynebu – yn enwedig elusennau llai – yw bod ganddynt lai o adnoddau pwrpasol ar gyfer codi arian a chodi arian drwy gymynroddion o'i gymharu â gweddill y DU:

> *"Elusennau bach sydd yng Nghymru i raddau helaeth, ac mae popeth yn lleol iawn. Nid yw'r sector elusennau wedi datblygu'n ddigonol, ac nid yw'r sylfaen sgiliau gennym ar gyfer unigolion sy'n arbenigo mewn codi arian drwy gymynroddion. Mae angen i ni wneud mwy i ddatblygu ein helusennau."*

> *"Mae gan yr elusennau mwy sy'n gweithredu ar lefel y DU unigolion sy'n arbenigo mewn codi arian drwy gymynroddion...ond yn aml iawn bydd unrhyw gymynroddion a geir yma yn mynd i'r swyddfa yn Llundain, a nhw sy'n penderfynu a fydd Cymru'n elwa o gwbl."*

# INCWM O GYMYNRODDION

Mae maint yr incwm o gymynroddion yn adlewyrchu siâp y farchnad sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'r prif elusennau'n cael 14% o incwm o gymynroddion, ond yr elusennau mawr sy'n cael y gyfran fwyaf un (75%). Mae hyn yn wahanol iawn i'r farchnad ar draws y DU, lle mai'r prif elusennau sy'n cael 94% o incwm o gymynroddion. Mae dros un rhan o ddeg o incwm o gymynroddion (11%) yn mynd i elusennau canolog a bach, sy'n dipyn o gyferbyniad â'r dim ond 1% sy'n mynd i elusennau sydd â'u pencadlys yn Lloegr, a 0.2% yn yr Alban.

O ran elusennau sy'n codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru, wrth edrych ar y 70 uchaf, roedd cyfanswm yr incwm o gymynroddion yn 2017 yn £19.8m, a phob sefydliad yn cael £283,000 ar gyfartaledd. Er mai dim ond 1% o gyfanswm yr incwm o gymynroddion ar gyfer y DU i gyd yw hyn, a bod yr incwm cyfartalog yn is o lawer na chymynroddion i elusennau sy'n gweithredu ar draws y DU (£6.1 miliwn) ac elusennau'r Alban (£918,000), mae hyn yn adlewyrchu maint a graddfa elusennau cymynroddion Cymru. Yn wir, mae'r incwm blynyddol cyfartalog y mae elusennau llai yng Nghymru yn ei gael drwy gymynroddion (£130,000) yn fwy na'r swm cyfartalog a godir gan elusennau llai yng ngwledydd eraill y DU.

Roedd incwm o gymynroddion yn ffurfio chwarter (25%) cyfanswm yr incwm gwirfoddol yn 2017, ac 8% o gyfanswm incwm elusennau sy'n codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru, o'i gymharu â 28% ac 13% ar gyfer yr holl elusennau sy'n codi arian yn y DU a oedd yn rhan o'r astudiaeth hon.

| CYFARTALEDD YR INCWM BLYNYDDOL O GYMYNRODDION, FESUL ELUSEN (£M) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwlad | Prif (>£10m) | Mawr (£1m-£10m) | Canolig (<£1m) | Cyfartaledd Cenedlaethol |
| Y DU gyfan | £13.426 | £0.717 | £0.117 | £6.111 |
| Lloegr | £3.234 | £0.514 | £0.093 | £1.030 |
| Yr Alban | £2.271 | £0.405 | £0.059 | £0.918 |
| Cymru | **£0.590** | **£0.320** | **£0.130** | **£0.283** |
| Cyfartaledd yn ôl maint | £6.451 | £0.534 | £0.102 | |

Ym marn codwyr arian yng Nghymru, roedd y sector 'ar ei hôl hi' ym maes codi arian drwy gymynroddion. Y teimlad oedd bod pobl yn poeni am wneud pethau'n iawn, a bod cymynroddion yn gallu mynd yn is ac yn is ar y rhestr, y tu ôl i angen tymor byr mwy uniongyrchol am incwm:

> *"Mae prinder arbenigedd mewn codi arian drwy gymynroddion fel proffesiwn. Mae'n hawdd teimlo'r ofn a pheidio mentro."*

> *"Dydyn ni ddim wedi gwneud llawer oherwydd mae ychydig bach o ofn y gallai siarad am gymynroddion gyda'n cefnogwyr fod yn rhywbeth ansensitif i'w wneud. Mae'n dipyn o dabŵ."*


> *"Gyda chymynroddion, mae arian yn tueddu i gael ei ryddhau'n raddol dros gyfnod hir, ond i'r rhan fwyaf o sefydliadau, mae angen yr arian arnyn nhw nawr. Felly mae codi arian drwy gymynroddion yn tueddu i fynd yn angof ac mae pethau eraill yn cael blaenoriaeth."*

# DEGAWD O NEWID: 2007-2017

Er bod y farchnad cymynroddion yng Nghymru yn llai nag yr ydyw mewn rhannau eraill o'r DU, dyma'r farchnad sydd wedi gweld y twf cyflymaf mewn incwm dros y degawd diwethaf. Wrth edrych ar sampl gyfatebol o 24 o elusennau sy'n codi arian yng Nghymru rhwng 2007 a 2017, tyfodd incwm o gymynroddion dros draean (35%) mewn termau real, o'i gymharu ag 13% ar gyfer elusennau ar draws y DU neu 23% yn yr Alban.

Ymatebodd y marchnadoedd cymynroddion yng Nghymru a'r Alban yn wahanol i flynyddoedd y dirwasgiad ar ôl 2007-08 o'u cymharu â'r DU yn gyffredinol. Ym marchnad y DU yn gyffredinol, roedd hyn yn ergyd i incwm o gymynroddion bron yn syth – gostyngodd 10% rhwng 2007 a 2012, cyn ailgodi eto a thyfu 22% dros y bum mlynedd ddilynol.  Ond yng Nghymru a'r Alban, ni welwyd unrhyw arwyddion o ddirywiad mewn incwm o gymynroddion tan 2013-14.


Yng Nghymru tyfodd incwm o gymynroddion ar gyfradd o 12% hyd at 2012, gan ostwng dim ond 4% yn 2013-14, a chodi 10% eto, yn gyflym iawn, erbyn 2017 – a pheidio â disgyn yn is na'r lefelau cyn y dirwasgiad o gwbl.




*Yn seiliedig ar sampl gyfatebol o 24 o elusennau*

# INCWM O GYMYNRODDION YN ÔL ACHOS

Mae'r sector cymynroddion yn mynd yn fwy eang, ond elusennau iechyd sydd wedi bod ar frig y rhestr yn y farchnad yng Nghymru yn ystod y ddeng mlynedd diwethaf, ac mae eu dylanwad yn dal i dyfu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae elusennau iechyd wedi cynyddu eu hincwm o gymynroddion 57%, sef dros hanner.




Yn 2017, derbyniodd elusennau iechyd yng Nghymru 77% o incwm o gymynroddion, o'i gymharu â 42% o gyfran yn y farchnad ar draws y DU. Wrth edrych ar elusennau sy'n cael arian drwy gymynroddion, mae bron i bob un o'r deg uchaf yn rhan o'r sector iechyd. Hosbisau ac elusennau canser sy'n cael y mwyafrif helaeth o incwm cymynroddion elusennau iechyd (94%).

Ar ôl elusennau iechyd, elusennau crefyddol sydd â´r gyfran uchaf yn y farchnad cymynroddion yng Nghymru, er bod y gyfran honno wedi disgyn o chwarter (26%) yn 2007 i 13% yn 2017. Yn y cyfamser, mae incwm i'r sector plant, a gychwynnodd o sylfaen fechan, 17 gwaith yn fwy na'i werth yn 2007 erbyn hyn.


*Mae'n bwysig nodi bod y sector addysg a sector y celfyddydau yn rhan fawr o'r byd codi arian drwy gymynroddion, ond maent wedi'u tangynrychioli yn y gwaith ymchwil hwn oherwydd er bod gan lawer ohonynt statws elusennol, nid ydynt yn adrodd i'r Comisiwn Elusennau. Oherwydd hyn, nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y sylfaen samplau ar gyfer yr astudiaeth hon.*

# ELUSENNAU SY'N CAEL ARIAN O GYMYNRODDION – Y 10 UCHAF

| Y 10 UCHAF O BLITH ELUSENNAU YNG NGHYMRU SY'N CAEL ARIAN DRWY GYMYNRODDION (£M)<br>**Yn dangos incwm blynyddol o gymynroddion o 2017 neu'r set ddata ddiweddaraf* | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Ymchwil Canser Cymru | £1.79 | 6. Tenovus | £1.17 |
| 2. Ymddiriedolaeth Elusennol Ambiwlans Awyr Cymru | £1.49 | 7. Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Elusennau Cysylltiedig Eraill | £0.97 |
| 3. Gofal Hosbis Sefydliad Dewi Sant | £1.30 | 8. Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro | £0.76 |
| 4. Hosbis Dewi Sant | £1.24 | 9. Cronfa Elusennol BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Elusennau Cysylltiedig Eraill | £0.75 |
| 5. Latch – Elusen Canser Plant Cymru | £1.21 | 10. Elusennau Iechyd Hywel Dda | £0.52 |

# INCWM O GYMYNRODDION YN 2017 YN ÔL GWLAD

**Y PRIF ELUSENNAU SY'N CAEL ARIAN O GYMYNRODDION YN Y DU (1,155 o elusennau)**
**Mae'r incwm blynyddol sy'n dod o gymynroddion yn £2.23 biliwn**
**Mae 28% o incwm gwirfoddol yn dod o gymynroddion**
**Twf dros 10 mlynedd – 10%**
**Cyfartaledd yr incwm blynyddol o gymynroddion – £1.93 miliwn**



**YR ALBAN (78 o elusennau)**
**£71.6m** o incwm blynyddol o gymynroddion
Mae **24%** o incwm gwirfoddol yn dod o gymynroddion
Twf dros 10 mlynedd – **23%**
Cyfartaledd yr incwm o gymynroddion – **£920,000**

**CYMRU (70 o elusennau)**
**£19.8m** o incwm blynyddol o gymynroddion
Mae **25%** o incwm gwirfoddol yn dod o gymynroddion
Twf dros 10 mlynedd – **35%**
Cyfartaledd yr incwm o gymynroddion – **£280,000**

**LLOEGR (789 o elusennau)**
**£812m** o incwm blynyddol o gymynroddion
Mae **25%** o incwm gwirfoddol yn dod o gymynroddion
Twf dros 10 mlynedd – **4%**
Cyfartaledd yr incwm o gymynroddion – **£1.03m**

**Y DU GYFAN (216 o elusennau)**
**£1.32 biliwn** o incwm blynyddol o gymynroddion
Mae **31%** o incwm gwirfoddol yn dod o gymynroddion
Twf dros 10 mlynedd – **13%**
Cyfartaledd yr incwm o gymynroddion – **£6.11m**

Nodyn: Incwm o gymynroddion wedi'i gasglu gan elusennau sydd ymhlith y 5,000 uchaf yng nghronfa ddata elusennau Charity Financials. Dim ond elusennau sy'n rhoi gwybod am incwm drwy gymynroddion sydd wedi'u cynnwys. Mae'r holl ffigurau twf yn seiliedig ar dwf termau real, wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ond ddim yn cynnwys elusennau newydd yn y farchnad. Caiff elusennau eu categoreiddio yn ôl eu prif gylch gwaith daearyddol cenedlaethol, neu fel sefydliadau drwy'r DU gyfan. (Gweler *Methodoleg* i gael rhagor o wybodaeth.)

# Y FFORDD YMLAEN

Wrth edrych ar batrymau incwm o gymynroddion o'r degawd diwethaf, gellir gweld bod y farchnad yng Nghymru – er yn fach – yn tyfu'n gyflym, ac mae'r potensial ganddi i barhau i wneud hynny. Ond beth mae'r tueddiadau hyn yn ei awgrymu ar gyfer dyfodol codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru?

### Marchnad sy'n fwy amrywiol ac yn fwy lleol

Gellir disgrifio'r farchnad yng Nghymru fel un sydd â chyfran uchel o sefydliadau bach a chymunedol y mae cymynroddion yn dod yn fwyfwy pwysig iddynt. Er bod y gymuned codi arian yn aml yn teimlo'i bod o dan anfantais oherwydd mai dim ond hyn a hyn o adnoddau ac arbenigedd sydd ganddi ym maes codi arian drwy gymynroddion yng Nghymru, mae cyfle gwirioneddol i elusennau fanteisio ar gryfder teyrngarwch lleol i ddatblygu'u dilyniant o ran cymynroddion. Mae elusennau Cymru mewn sefyllfa dda i ddwyn budd o'r pwyslais presennol ar roi sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae'r farchnad yn cynnwys mwy o achosion sy'n ymwneud ag iechyd na dim byd arall, ond mae pethau'n newid. Mae'r *Millennials* yn hoff o gefnogi amrywiaeth eang o achosion, er enghraifft achosion sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol y maent yn eu gweld o'u cwmpas. Wrth i roi drwy gymynrodd ddod yn fwy cyffredin, rydym yn debygol o weld y farchnad yn ehangu eto fyth.

### Mwy o botensial i ddatblygu incwm o gymynroddion

Dywedodd pob un o'r codwyr arian y siaradwyd â nhw yn ystod yr astudiaeth hon fod cymynroddion wedi dod yn bwysicach i'w helusen dros y degawd diwethaf. Serch hynny, ceir pryder o hyd ynghylch codi'r pwnc o adael rhodd mewn ewyllys, a hynny o frig y sefydliadau neu gan y rheini sy'n codi arian, am eu bod yn ofni nad oes ganddynt ddigon o sgiliau neu nad ydynt wedi cael digon o hyfforddiant i allu delio â'r pwnc yn dda. Yng Nghymru, dywedodd amryw eu bod yn teimlo'n bell i ffwrdd oddi wrth ardal De-ddwyrain Lloegr – 'cadarnle cymynroddion'. Yn ogystal â hyn, ceir pryderon ynglŷn â cholli allan ar incwm o gymynroddion gan nad ydynt yn gallu cystadlu ag elusennau mwy sy'n gweithredu ar draws y DU ac yn codi arian yng Nghymru. Ac eto, mae'r farchnad yng Nghymru yn herio'r disgwyliadau ac yn gweld lefelau twf uchel, er ei fod yn deillio o sylfaen fechan. Mae'n debygol bod mwy o botensial o lawer i godi incwm os bydd y rheini sy'n codi arian yn cael y cymorth, yr hyfforddiant a'r anogaeth angenrheidiol i wneud hynny.

> *"Mae rhywun yn tybio bod pobl yn gwybod y pethau sylfaenol, ond i elusen fach iawn a rhywun sy'n hollol newydd i'r pwnc, mae angen arweiniad. Ble mae cychwyn? Beth yw rhoi drwy gymynrodd? Sut mae'n gweithio? Sut mae cael gwybod os yw rhywun wedi gadael cymynrodd i ni?"*

### Mae ansicrwydd economaidd yn dal yn bodoli

Mae cryfder yr economi yn ffactor sy'n dylanwadu llawer iawn ar incwm o gymynroddion. Disgwylir o hyd y bydd yr hinsawdd ôl-Brexit yn dipyn o her i godi arian fel hyn. Serch hynny, gallai'r *Baby Boomers* elusengar eu natur, a throsglwyddo cyfoeth o un genhedlaeth i'r llall, olygu potensial anferthol ar gyfer twf.[1] Mae'r dyfodol yn ansicr, ond rhaid croesawu'r newyddion bod y dirwasgiad diwethaf wedi cael llai o effaith ar incwm o gymynroddion yng Nghymru na gwledydd eraill y DU, a gallai hyn awgrymu rhywfaint o amddiffyniad yn ystod cyfnod o ansefydlogrwydd economaidd.

---

[1] Legacy Foresight 2014

**Pam mae'n bwysig bod y farchnad rhoddwyr yn tyfu?**
Wrth i fwy o elusennau ddod i'r farchnad a chystadlu am arian, mae'n anochel y bydd incwm o gymynroddion yn cael ei wasgu fwyfwy oni bai y rhoddir mwy o bwyslais ar dyfu'r farchnad rhoddwyr eto, a gwneud hynny'n gynt, gan sicrhau bod rhoi rhodd mewn ewyllys yn cael ei ystyried yn rhywbeth arferol i'w wneud. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i elusennau wneud cymynroddi'n rhan o'u sgwrs bob dydd, yn fewnol ac yn allanol. Rhaid iddynt sicrhau bod rhanddeiliaid a chefnogwyr fel y'i gilydd yn dod yn gyfarwydd â'r syniad o adael rhodd mewn ewyllys, cychwyn sgwrs am gymynroddion, chwalu'r tabŵ sy'n gysylltiedig â'r pwnc, a llunio strategaethau effeithiol ar gyfer codi arian drwy gymynroddion.

Ond mae newid ymddygiad yn cymryd amser, ac mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio os yw'r sector am weld cynnydd parhaol yn y farchnad rhoddwyr. Mae hyn yn golygu cydweithio o fewn y sector, a dod ag adnoddau at ei gilydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd sy'n rhoi; cydweithio gyda'r llywodraeth, gan geisio diogelu a datblygu cymhelliannau ar gyfer rhoi drwy gymynrodd; a chydweithio gyda'r proffesiwn cyfreithiol, sy'n helpu'r cyhoedd i gofnodi eu dymuniadau terfynol.

Dim ond drwy gydweithio y gall y sector lwyddo i dyfu'r farchnad rhoddwyr yn y tymor hir a sicrhau bod gan elusennau sylfaen sefydlog i sicrhau incwm o gymynroddion yn y dyfodol.

# PWYNTIAU PWYSIG: SEFYDLU DIWYLLIANT AR GYFER CODI ARIAN DRWY GYMYNRODDION

**Siarad am gymynroddion yn agored ac yn aml** – Ceisiwch wneud yn siŵr bod gadael rhodd mewn ewyllys yn rhan o'ch sgyrsiau o ddydd i ddydd, yn fewnol ac yn allanol, gan wella dealltwriaeth pobl a goresgyn pob tabŵ. Nid yw hyn yn golygu gwneud marw neu farwolaeth yn ganolbwynt pob sgwrs, mae'n golygu cyfleu sut mae rhoi drwy gymynrodd yn galluogi pobl i adael eu marc ar y byd. Mae'n bwysig dweud yn glir nad oes angen i roddion fod yn fawr i wneud gwahaniaeth; gall unrhyw un gael dylanwad drwy nodi ei ddymuniadau yn ei ewyllys.

**Dathlu beth fydd cymynroddion yn eich galluogi i'w wneud** – Mae cymynroddion yn gallu newid byd, ac mae hynny'n wir am yr elusennau ac am y buddiolwyr. Rhannwch hanesion cymynwyr, gan ddweud pam roedden nhw'n dymuno gadael rhodd a faint o wahaniaeth mae'r rhodd honno wedi'i wneud, gan ysbrydoli pobl eraill i wneud yr un fath. Dangoswch eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn i gefnogwyr allu deall eich angen hirdymor am arian a gweld sut gallai eu rhodd nhw gael effaith wirioneddol a pharhaol.

**Hyrwyddo cymynroddion o frig y sefydliad** – Gwnewch yn siŵr bod eich ymddiriedolwyr, eich prif weithredwr a'ch uwch dîm rheoli wedi ymrwymo i hyn, a'u bod yn deall yr effaith y mae cymynroddion yn ei chael ar eich elusen neu'r effaith y gallent ei chael. Meddyliwch beth arall y gallent ei wneud i gyfleu pwysigrwydd cymynroddion ymhlith staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr a chefnogwyr. Allwch chi argyhoeddi'r bwrdd i edrych ar gymynroddion fel blaenoriaeth sefydliadol neu strategol?

**Buddsoddi mewn codi arian drwy gymynroddion** – Os oes gennych chi swyddogion pwrpasol ar gyfer codi arian drwy gymynroddion neu beidio, gwnewch yn siŵr eu bod yn cael yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod cymynroddion yn llwyddiant go iawn. Yn y bôn, po fwyaf y byddwch chi'n ei roi i mewn i'ch rhaglen cymynroddion, y mwyaf o fudd rydych chi'n debygol o'i gael. Mae hynny'n cynnwys arian ar gyfer gwaith elusennol hanfodol am y blynyddoedd nesaf.

**Gwneud pawb yn yr elusen yn rhan o'ch tîm cymynroddion** – Mae cymynroddion yn gallu cael effaith wirioneddol ar waith elusennau ac ar fuddiolwyr. Mae hyn yn golygu bod angen i bawb yn y sefydliad gymryd rhan, yn yr un modd ag y byddent yn cymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad codi arian arall. Dylech annog staff a gwirfoddolwyr i gychwyn sgwrs am gymynroddion pan fydd hynny'n briodol. Gallai hyn olygu tynnu sylw at brosiectau sydd wedi cael eu hariannu gan gymynroddion neu ofyn i gefnogwyr a fyddent yn hoffi cael gwybod mwy, gan normaleiddio'r syniad o roi drwy gymynrodd.

**Bod yn rhagweithiol** – Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol eu bod yn gallu gadael rhodd yn eu hewyllys, nac yn deall pa mor hawdd yw gwneud hynny na faint o wahaniaeth parhaol y gall ei wneud, felly mae'n bwysig bod yn rhagweithiol. Os byddwch chi'n mynd ati'n sensitif i hyrwyddo cymynroddion ar draws ystod eang o sianeli cyfathrebu, a dangos effaith hyn, yn hytrach na chael cymynroddion nawr ac yn y man, fe allech gael ffrwd incwm gyson yn y tymor hir. Bydd hyn yn galluogi'ch elusen i wneud gwahaniaeth go iawn i fuddiolwyr.

# METHODOLEG

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwaith ymchwil newydd i’r 1,155 o’r prif elusennau sy’n codi arian yn y DU gydag incwm o gymynroddion. Mae hynny'n cynnwys 70 o elusennau gyda’u pencadlys yng Nghymru a 78 yn yr Alban. Daeth y data o gronfa ddata elusennau Charity Financials sy’n cynnwys y 5,000 uchaf, ynghyd â sampl ategol o 27 o elusennau o Gymru a 3 elusen o’r Alban. Gyda dim ond 3 o’n sampl yng Ngogledd Iwerddon, a phrinder data hanesyddol cymaradwy, nid yw marchnad cymynroddion Gogledd Iwerddon wedi’i chynnwys yn yr astudiaeth hon. Roedd sampl gyfatebol o 777 o sefydliadau (24 yng Nghymru a 45 yn yr Alban) yn ffurfio’r sail ar gyfer cymharu rhwng 2007 a 2017. Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gydag 17 o elusennau a oedd yn codi arian a chyrff seilwaith ledled y DU.

Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar incwm y mae elusennau sy’n codi arian ac sydd â’u pencadlys yng Nghymru yn ei gael o gymynroddion. Dylid cadw mewn cof y bydd y rhai sy'n gadael rhodd yn eu hewyllys yng Nghymru yn darparu ar gyfer elusennau cyfarwydd mewn rhannau eraill o’r DU, ac y gallai cymynwyr o’r tu allan i Gymru roi rhodd i elusennau yng Nghymru. Mae cymariaethau cenedlaethol yn seiliedig ar brif sylfaen a chylch gwaith daearyddol pob sefydliad.

Er ein bod ni’n cyfeirio at incwm o gymynroddion fel ‘rhoddion mewn ewyllys’, a dyma beth mae’n ei olygu gan amlaf, roedd rhai elusennau yn y set ddata hon yn cynnwys ffrydiau incwm cysylltiedig, fel rhoddion er cof, yng nghyfanswm eu hincwm o gymynroddion.

Comisiynwyd y gwaith ymchwil gan Remember A Charity, ac fe’i cynhaliwyd gan Dr Catherine Walker, Cyfarwyddwr The Researchery a Cathy Pharoah, Athro Gwadd ym maes Codi Arian Elusennol, Ysgol Fusnes Cass. I gael rhagor o wybodaeth ac i weld adroddiad y DU yn llawn, ewch i Remember A Charity.

# REMEMBER A CHARITY

Fel consortiwm o 200 o elusennau sy'n codi arian ar draws y DU, mae Remember A Charity yn gweithio i dyfu'r farchnad cymynroddion a normaleiddio gadael rhoddion mewn ewyllys. Byddwn yn darparu adnoddau i helpu elusennau i ysbrydoli eu cefnogwyr i adael rhodd yn eu hewyllys. Gan weithio'n agos gyda'r llywodraeth a'r proffesiwn cyfreithiol i normaleiddio cymynroddion, bydd Remember A Charity hefyd yn arwain gweithgareddau ymwybyddiaeth defnyddwyr drwy gydol y flwyddyn. Bydd Wythnos Cofio am Elusen yn digwydd bob mis Medi; ymgyrch flynyddol wythnos o hyd i hybu a dathlu effaith rhoi drwy gymynrodd.

**I gael gwybod sut gall Remember A Charity helpu eich elusen chi, neu i gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.rememberacharity.org.uk](http://www.rememberacharity.org.uk).**

REMEMBER A CHARITY 13-15 CARTERET STREET LLUNDAIN SW1H 9DJ FFÔN: 020 7840 1030
Mae Remember A Charity yn rhan o'r Sefydliad Codi Arian, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr [Rhif 1079573] ac yn yr Alban [Rhif SC038971]